



# Adroddiad ar adolygiad ymarfer: Operation Jasmine

Bwriad yr astudiaethau achos hyn yw tynnu sylw at broblemau'n ymwneud â gweithredu ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau allweddol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith aml-asiantaethol. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a gofyn cwestiynau ynghylch dulliau atal mewn sefyllfaedd lle mae camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn digwydd. Maent wedi'u crynhoi i helpu gyda'r broses hon, ond mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau ar yr adolygiadau.

## Cyd-destun a chefnidir yr adolygiad

Roedd preswylwyr rhai cartrefi gofal ym Mwrdeistref Sirol Caerffili a Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi dioddef lefel eang a chyson o gamdriniaeth a arweiniodd at anafiadau arswydus a marwolaethau cyn pryd. Cychwynnodd Heddlu Gwent ymchwiliad o dan yr enw cod Operation Jasmine.

Ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddodd y Prif Weinidog Carwyn Jones y byddai'n mynd ati i gynnal adolygiad o Operation Jasmine a'r digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â hi fel y gallwn ni ddysgu ar gyfer y dyfodol. Diben yr adolygiad oedd:

1. Amlinellu profiadau'r bobl hynny a'u teuluoedd mewn cartrefi gofal preswyl yng Ngwent a ddaeth i gael eu hadnabod fel Operation Jasmine.
2. Amlinellu'r digwyddiadau allweddol.
3. Ystyried ac amlinellu'r camau sydd wedi'u cymryd gan y gwahanol bartïon perthnasol yn y cyfamser.
4. Amlinellu gwersi allweddol ar gyfer y dyfodol ochr yn ochr ag argymhellion ynghylch polisi neu ddeddfwriaeth, rheoleiddio ac ymarfer gweithredol ar gyfer y gwahanol bartïon dan sylw.

## Amgylchiadau'r unigolyn a'r heriau a oedd yn ei wynebu

Disgrifiodd teuluoedd pobl hyn yr arferion anghywir a difater yn y cartrefi gofal a wnaeth niwed i'w perthnasau. Roedd yr arferion sefydliadol a welsant yn annigonol o ran ymateb i natur fregus, salwch cronig, dirywiad iechyd, trallod meddyliol a phoen pobl hyn. Roedd y gofal nyrsio a addawyd i rai pobl hyn yn ffug.

Mewn oes o ddewis i gleifion, os mai profiad teuluoedd yw sefyllfa lle rhoddir dewis o dderbyn lle neu beidio wrth ddewis cartref gofal – dydy hynny ddim yn ddewis. Felly, dylai comisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol beidio â defnyddio geirfa diwylliant prynu.

Nid oedd preswylwyr y cartrefi gofal a oedd yn gysylltiedig ag Operation Jasmine yn gallu symud i ddarparwyr eraill. Roedd eu dementia yn rhy ddifrifol a/neu roeddent yn fregus iawn yn gorfforol gydag anghenion iechyd cronig ac, i'r teuluoedd, roedd cael bod yn agos at eu perthnasau'n ystyriaeth hollbwysig.

Nid oedd eu teuluoedd yn ymwybodol o enw gwael rhai o'r perchnogion a'r rheolwyr neu'r cartrefi lle roedd y rheoliadau perthnasol yn cael eu torri byth a beunydd. Roedd y teuluoedd o'r farn bod y diffyg sylw i elfennau sylfaenol megis hydradiad, maetheg, cysur corfforol, hylendid personol, anafiadau heb esboniad a briwiau pwysau dwfn a ddiodefwyd gan eu perthnasau yn golygu bod eu dynoliaeth gyffredin yn cael ei anwybyddu, gan adlewyrchu trachwant y busnesau hynny sy'n berchen ar y cartrefi dan sylw.



## Beth ddigwyddodd?

Er gwaethaf yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, methodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ag erlyn y cwmni a chynrychiolwyr y cartref gofal oherwydd annigonolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol. O ganlyniad, ni pharhawyd ag achosion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; yn hytrach, cawsant eu "gadael ar y ffeil". Mae'n bosibl y gallai rhai o'r rhain gael eu hailystyried yn y dyfodol.

## Pam y digwyddodd?

Ni wnaeth unrhyw broffesiwn nac asiantaeth unigol fynd ati i arwain y gwaith o fynd i'r afael â'r problemau ymddiriedaeth, y dyletswyddau cytundebol a esgeuluswyd na'r niwed a ddioddefodd y bobl hŷn. Ni chafwyd trafodaeth ynghylch pa asiantaeth ddylai ymchwilio ac erlyn – gan gynnwys ystyried dyletswyddau, pwerau, capasiti, gallu ac angen brys i amddiffyn, er enghraifft.

Roedd hi'n ymddangos mai unig rôl y rheoleiddiwr, y bwrdd iechyd lleol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan erbyn hyn) a'r awdurdodau lleol sy'n comisiynu oedd bwydo gwybodaeth i ymchwiliad yr heddlu.

Roedd paramedrau ymchwiliad Heddlu Gwent yn rhy eang: er enghraifft, i ymchwilio i amgylchiadau pob marwolaeth lle roedd pryderon ac ymchwilio i bob honiad neu amheuaeth o gam-drin. Cyfrannodd hyn i ryw raddau at hyd yr ymchwiliad. Cwestiynodd adolygiad gan gymheiriaid gan Heddlu Gogledd Cymru yn 2009 elfennau o ymchwiliad Heddlu Gwent.

Collodd asiantaethau rywfaint o ymreolaeth dros gamau gweithredu wrth i weithgareddau, a oedd yn dod o dan eu pwerau fel arfer, gael eu cyfyngu gan mai gan Heddlu Gwent oedd y gair olaf ynghylch sut y dylai'r ymchwiliad gael ei gynnal. Roedd y ffaith bod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi'i hallgáu o'r ymchwiliad yn anhygoel. Roedd hi'n anhygoel hefyd fod ymchwiliad heddlu mor uchel ei broffil yn derbyn cyngor gan reolwr arolygu a oedd wedi ymddeol. O safbwynt y gweithwyr proffesiynol a oedd wedi ceisio gwneud gwelliannau mewn cartrefi a oedd yn methu, fe aeth rhai ohonyn nhw o fod yn dystion i fod o dan amheuaeth.



## Detholiad o argymhellion yr adroddiad

Darparodd yr adolygiad fewnbwn i Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth (Cymru) trwy (i) gyfarfodydd gyda gweision sifil sy'n gyfrifol am ei ddatblygiad. Ystyriodd y rhain sut y gellid adlewyrchu canfyddiadau newydd: trwy sicrhau bod y rhai sy'n berchen ar ac yn elwa ar ddarpariaeth gwasanaethau, hynny yw, aelodau'r bwrdd, yn cael eu dwyn i gyfrif; trwy ganiatáu i reoleiddwyr gymryd camau yn erbyn corff corfforaethol yn hytrach na gwasanaeth unigol; a thrwy sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth yn hygyrch i unigolion sy'n derbyn gofal ac i'w teuluoedd; a (ii) llythyr at y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn mis Rhagfyr 2014.

### 1. Mae'r sector cartrefi gofal preswyl a nyrsio:

- (i) yn dod yn sector o bwysigrwydd strategol cenedlaethol sylfaenol i Gymru, gan gydnabod bod buddsoddiad isel yn y system gofal cymdeithasol yn golygu costau uwch i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac yn effeithio ar botensial economaidd trwy fethu â chefnogi llafurlu modern a hyfforddedig
- (ii) yn cael ei lywio gan bolisiâu penodol i reoleiddio a chaniatáu ymyrraeth yn y farchnad gofal cymdeithasol i wella ansawdd gofal trwy fynd i'r afael yn uniongyrchol â materion megis cyflog ac amodau gwaith, lefelau staffio a gwybodaeth ac arbenigedd comisiynwyr gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus
- (iii) mae rheolwyr cartrefi gofal yn cael eu cofrestru ac yn aelodau o gorff proffesiynol, sy'n gosod safonau proffesiynol, sydd â phwerau disgyblu ac sy'n darparu llais ar bolisi cenedlaethol iddynt
- (iv) yn datblygu dangosyddion ansawdd credadwy i lywio cynlluniau strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

### 2. Mae Llywodraeth Cymru, mewn cysylltiad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn sicrhau:

- (i) bod arwyddocâd briwiau pwysedd dwfn yn cael ei ddyrchafu i lefel cyflwr hysbysadwy
- (ii) bod uwch glinigwyr, gan gynnwys cofrestryddion, meddygon teulu a nyrsys hyfywedd meinwe, yn arwain y ffordd o ran atal briwiau pwysedd y gellir eu hosgoi a datblygu Cofrestrfa Glwyfau Genedlaethol, gyda chymorth y Ganolfan Arloesi ym maes Gwella Clwyfau

- (iii) bod uwch glinigwyr yn gyfrifol am roi gwybod i lechyd Cyhoeddus Cymru am friwiau pwysedd dwfn
- (iv) os yw lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael gwybod am fodolaeth briwiau pwysedd dwfn, bod proses wedi'i nodi lle mae'r wybodaeth honno'n cael ei chyfathrebu i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac awdurdodau comisiynu priodol, yn ogystal â theuluoedd pobl.

### 3. Dylai Byrddau Diogelu Oedolion sicrhau bod y broses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA):

- (i) yn diffinio ei swyddogaethau yn fwy cul a phenodol
  - (ii) yn cryfhau canlyniadau amddiffynnol i unigolion os oes honiad neu dystiolaeth o niwed trwy sicrhau bod naill ai asesiad gofal neu adolygiad o gynllun gofal yr unigolyn hwnnw yn cael ei gynnal. Dylai canlyniad y broses fod yn gam penodol, yn hytrach na phenderfyniad bod cam-drin sefydliadol wedi digwydd
  - (iii) yn sicrhau bod y GIG yn atebol am gyflawni ei gyfrifoldeb arweiniol i ymchwilio i gyflyrau difrifol a all fod yn farwol megis briwiau pwysedd dwfn yn y sector cartrefi preswyl a nyrsio.
10. Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn sicrhau bod y flaenoriaeth a roddir i ymchwiliad yr heddlu yn darparu gallu (a) Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (b) rheoleiddwyr proffesiynol, megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Gofal, i gymryd camau sifil a throseddol; a mynd i'r afael â phryder ynghylch addasrwydd i ymarfer o fewn amserlen ddiffiniedig.

**Dyfyniad** *Chwilio am Atebolrwydd: Adolygiad o esgeuluso pobl hyn sy'n byw mewn cartrefi gofal ymchwilio fel Operation Jasmine, Llywodraeth Cymru, Mai 2015* [gov.wales/docs/dhss/publications/150714ojreporten.pdf](https://gov.wales/docs/dhss/publications/150714ojreporten.pdf) (Saesneg yn unig)